# Canllaw i Aelodau Etholedig ar Gydsynio Seilwaith

## Sut y gall aelodau etholedig ymgysylltu â'r broses cydsynio seilwaith ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol

## Tabl Cynnwys

Talfyriadau ... 2
Cyflwyniad ... 3
Diben y canllawiau hyn ... 3
Cynnwys y canllawiau hyn ... 3
Amlinelliad o'r broses cydsynio seilwaith ... 5
Y ddeddfwriaeth cydsynio seilwaith ... 6
Y gyfundrefn cydsynio seilwaith ... 6
Mathau o PSAau ... 7
Rôl aelodau etholedig ... 9
Mathau o aelodau etholedig ... 9
Aelodau o'r Senedd ... 9
Gweinidogion Cymru ... 10
Cynghorwyr awdurdodau lleol ... 10
Cynghorwyr cymuned a thref ... 10
Aelodau Seneddol ... 11
Egwyddorion i aelodau etholedig ar ymgysylltu â phrosesau cydsynio seilwaith ... 12
1. Ymgysylltu'n gynnar ... 12
2. Cynrychioli eich etholaeth ... 12
3. Eich gwybodaeth leol ... 12
4. Osgoi rhagderfynu ... 14
5. Gwrthdaro buddiannau ... 14
6. Dylai sylwadau gysylltu ag ystyriaethau perthnasol ... 14
7. Ymgynghori â chynghorwyr cymdogol ... 16
Egwyddorion Ymgysylltu Gweinidogion ac Aelodau o'r Senedd ... 17
8. Cymhwyso Cod y Gweinidogion ... 17
9. Cymhwyso'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd ... 17
10. Gwrthrychedd ... 18
Gwaith ymgysylltu awdurdodau cynllunio lleol ... 18
Crynodeb o'r egwyddorion allweddol ... 18
Y broses cydsynio seilwaith ... 20
Cam cyn gwneud cais ... 20

Cam gwneud cais ........ 21
Cam archwilio ........ 22
Cam gwneud penderfyniad ........ 24
Gweithdrefnau ar ôl gwneud penderfyniad ........ 25
Crynodeb o ymgysylltiad aelod etholedig â'r broses ........ 25
Rhagor o wybodaeth ........ 27
PEDW ........ 27
Cymorth Cynllunio Cymru (CCC) ........ 27
Tîm Cydsynio Seilwaith Llywodraeth Cymru ........ 27

# Talfyriadau

| Talfyriad (yn nhrefn eu hymddangosiad) | Ystyr |
|---|---|
| AS | Aelod o'r Senedd |
| PSA | Prosiect Seilwaith Arwyddocaol |
| Deddf Seilwaith | Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 |
| GCS | Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith |
| PEDW | Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru |
| DAC | Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| NSIP | Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| MW | Megawatt |
| FfDC | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| CMCC | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| AEL | Adroddiad ar yr Effaith Leol |
| AEM | Adroddiad Effaith ar y Môr |
| AEA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |

# Cyflwyniad

## Diben y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer aelodau etholedig, gan gynnwys:

- Aelodau Seneddol
- Aelodau o'r Senedd (ASau)
- Cynghorwyr awdurdodau lleol
- Cynghorwyr cymuned a thref

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio pryd a sut y gall aelodau etholedig ymgysylltu â'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol (PSA).

Mae'r canllawiau hyn hefyd ar gyfer pob rhanddeiliad sy'n ymgysylltu â'r broses cydsynio seilwaith gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, ymarferwyr, ceiswyr a datblygwyr.

## Cynnwys y canllawiau hyn

Darn o ddeddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru yw Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("y Ddeddf Seilwaith") sy'n amlinellu'r broses gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru. Mae'n disodli Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) a chyfundrefnau cydsynio eraill a daeth i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

Prosiect seilwaith arwyddocaol (PSA) yw prosiect seilwaith, neu gynllun y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydsynio iddo oherwydd ei faint a'i effaith. Mae datblygiadau PSA yn cael effaith fawr ar lefel genedlaethol, ac maent yn ymwneud yn bennaf â seilwaith ynni, trafnidiaeth, dŵr, a gwastraff.

Bydd ceiswyr yn gwneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad i roi eu datblygiad PSA arfaethedig ar waith. Yr enw ar y broses o wneud dyfarniad ynglŷn â PSA arfaethedig yw'r "broses cydsynio seilwaith".

Er nad aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau o ran PSAau, mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae yn y broses cydsynio seilwaith oherwydd gall y datblygiadau hyn gael effeithiau ar lefel genedlaethol ac ar lefel gymunedol. Gall prosiectau effeithio ar ddarpariaethau swyddi, cynllunio ar lefel leol, yr amgylchedd, darpariaethau cymunedol, a llesiant cyffredinol pobl.

Felly, mae'r canllawiau hyn yn egluro termau allweddol a phrif gamau'r broses cydsynio seilwaith a'r rhai sy'n rhan ohoni, o'r camau cyn gwneud cais i ddyfarniad terfynol Gweinidogion Cymru.

Maent hefyd yn rhoi cyngor i aelodau etholedig fel y gallant wneud cyfraniadau ystyrlon at y broses o ddyfarnu ar PSAau, ac mewn ffordd sy'n cynrychioli barn eu hetholaethau'n llawn. Os bydd PSA arfaethedig o fewn etholaeth neu'n debygol o gael effaith ar etholaeth, bydd deall y broses hon yn helpu aelodau etholedig a'u cymunedau i wybod pryd a sut i gymryd rhan.

Yn y pen draw, canlyniad y broses cydsynio seilwaith yw y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud dyfarniad ar y PSA arfaethedig. Os rhoddir cydsyniad i'r cynnig, bydd y ceisydd yn cael Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (GCS) sy'n rhoi manylion y gymeradwyaeth a roddwyd i'r PSA ac unrhyw delerau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw wrth roi'r cynnig ar waith.

Canllawiau anstatudol yw'r rhain ac felly ni ddylid dibynnu arnynt na'u defnyddio yn lle cyngor cyfreithiol wrth ymgysylltu ar brosiectau penodol. Fodd bynnag, maent yn cynnwys gwybodaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Seilwaith a'i rheoliadau, ac fe'u llywiwyd gan fewnbwn gan gyrff cynrychioliadol ar gyfer aelodau etholedig ar sut y dylent ymgysylltu â'r broses cydsynio seilwaith.

# Amlinelliad o'r broses cydsynio seilwaith

Y broses cydsynio seilwaith yw'r broses y mae Gweinidogion Cymru yn ei dilyn wrth ddyfarnu ar PSAau. Caiff cais am PSA arfaethedig ei alw yn gais am gydsyniad seilwaith.

Mae sawl cam i'r broses cydsynio seilwaith, fel yr amlinellir isod. Mae gwybodaeth fwy cynhwysfawr am ble a sut y gall aelodau etholedig ymgysylltu â'r broses cydsynio seilwaith ar gael yn adran “Y Broses Cydsynio Seilwaith” y canllawiau hyn.

**Cyn gwneud cais**

Y cam cyn gwneud cais yw'r cam cyn i'r ceisydd gyflwyno ei gais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru. Fel rhan o'r cam cyn gwneud cais, bydd y ceisydd yn hysbysu holl randdeiliaid perthnasol PSA arfaethedig ac yn ymgymryd â gwaith cyhoeddusrwydd ac ymgynghori cychwynnol mewn perthynas â'r cynnig.

Caiff aelodau etholedig ar bob lefel eu hannog i ddechrau ymgysylltu â'r broses gydsynio ar y cam cynnar hwn, gan lywio'r cynigion cychwynnol ar gyfer prosiectau seilwaith sy'n effeithio ar eu hetholaeth.

**Gwneud cais**

Y cam gwneud cais yw'r cam pan fydd ceisydd neu ddatblygwr yn gwneud cais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru. Gall pob rhanddeiliad, gan gynnwys aelodau etholedig, gyflwyno sylwadau ar PSA arfaethedig.

**Archwilio**

Y cam archwilio yw'r cam pan gaiff rhinweddau PSA arfaethedig eu hystyried yn fanwl drwy weithdrefnau fel sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ac ymchwiliadau. Caiff y gwaith archwilio ei gyflawni gan “awdurdod archwilio”. Fel arfer, Arolygwyr Cynllunio o Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) fyddai'n cyflawni'r rôl hon.

Os bydd materion yn codi o gais sy'n bwysig i gymunedau lleol, gall aelodau o'r cyhoedd gael y cyfle i wneud sylwadau yn ystod y cam archwilio yn ysgrifenedig neu ar lafar mewn gwrandawiad.

Gall aelodau etholedig, fel cynrychiolwyr etholedig etholaeth, gyflwyno sylwadau i'r awdurdod archwilio yn ystod y cam archwilio ar gyfer PSA arfaethedig, gan roi mewnbwn a gwybodaeth leol fel rhan o'r dystiolaeth y dylai'r awdurdod archwilio orfod ei hystyried. Felly, “sylw” yw'r sylwadau neu'r dystiolaeth a gyflwynir gan randdeiliaid mewn perthynas â PSA arfaethedig.

**Gwneud penderfyniad**

Y cam gwneud penderfyniad yw'r cam pan fydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried yr argymhelliad a wnaed gan yr awdurdod archwilio ar gais, yn rhoi neu'n gwrthod rhoi cydsyniad seilwaith i PSA arfaethedig. Bydd cynnig sy'n cael cydsyniad yn derbyn Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (GCS). Bydd pob rhanddeiliad sydd wedi ymgysylltu â'r cais yn cael ei hysbysu am y penderfyniad terfynol.

Mae "cais am gydsyniad seilwaith" yn cyfeirio at y cais a wneir i PSA arfaethedig gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru i'w roi ar waith.

## Y ddeddfwriaeth cydsynio seilwaith

Caiff y broses cydsynio seilwaith hon ei phennu gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ac is-ddeddfwriaeth ategol.

Mae'r Ddeddf yn nodi'r trothwyon ar gyfer beth a gaiff ei ystyried yn PSA ac yn amlinellu camau'r broses cydsynio seilwaith y mae'n rhaid i bob rhanddeiliad eu dilyn.

Mae'r Ddeddf Seilwaith ar gael yma: Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

Mae nifer o reoliadau o dan y ddeddf hon hefyd sy'n amlinellu gofynion gweithdrefnol a gofynion eraill y broses cydsynio seilwaith yn fanwl.

Mae'r rheoliadau hyn ar gael yma: Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 | LLYW.CYMRU

## Y gyfundrefn cydsynio seilwaith

Fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol a ddefnyddir i ddyfarnu ar gynlluniau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol yw cyfundrefn cydsynio seilwaith. Mae'r wybodaeth allweddol am y cyfundrefnau cydsynio seilwaith sy'n berthnasol i Gymru wedi cael ei hegluro'n fanwl isod.

**Prosiectau seilwaith arwyddocaol (PSAau)**

PSAau yw cynigion am brosiectau seilwaith a gaiff eu gwneud gan geisydd neu ddatblygwr i Weinidogion Cymru, sy'n mynd drwy gyfres o gamau fel yr amlinellir uchod cyn y dyfernir arnynt, pan gaiff cydsyniad ei roi neu ei wrthod. Yn ymarferol, mae'r cynigion hyn yn aml yn ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, dŵr, a gwastraff.

Mae'r Ddeddf Seilwaith yn nodi'r trothwyon ar gyfer PSA, ond mae gan Weinidogion Cymru y pŵer hefyd i benderfynu a yw datblygiadau arfaethedig penodol yn PSAau ai peidio. Er mwyn i Weinidogion Cymru ddyfarnu bod datblygiad arfaethedig yn PSA, rhaid iddo fod wedi'i leoli yn rhannol neu'n gyfan gwbl yng Nghymru.

Mae cyfundrefn PSA wedi disodli DAC fel y gyfundrefn gydsynio newydd yng Nghymru ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r Ddeddf Seilwaith yn gwella gofynion ymgynghori DAC sy'n golygu y gall aelodau etholedig a chymunedau lleol gael eu cynnwys yn well yn y broses gyda mwy o eglurder, tryloywder a chyfranogiad yn achos prosiectau arfaethedig sy'n debygol o effeithio arnynt.

Mae'r gyfundrefn PSA hefyd yn gwella ar DAC drwy foderneiddio a symleiddio'r broses ar gyfer ymarferwyr a datblygwyr drwy gyfuno nifer o brosesau cydsynio ac awdurdodiadau gwahanol i greu un broses gydsynio, gan gynnwys caniatâd cynllunio, trwyddedau amgylcheddol, trwyddedau morol, a phwerau caffael gorfodol.

Cyfundrefnau cydsynio seilwaith eraill:

**Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC)**

O 15 Rhagfyr 2025, daeth cyfundrefn PSA i rym fel y gyfundrefn gydsynio ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol y mae Gweinidogion Cymru yn dyfarnu arnynt.

Felly, cyfundrefn DAC yw'r gyfundrefn flaenorol a ddefnyddiwyd i Weinidogion Cymru gydsynio i brosiectau seilwaith.

**Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs)**

Cyfundrefn cydsynio seilwaith gyfatebol lle mae Llywodraeth y DU yn hytrach na Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar brosiectau seilwaith ar raddfa fawr.

Mae prosiectau NSIP yn gymwys i Loegr ac, mewn rhai achosion, i Gymru os nad yw cais arfaethedig o fewn un o feysydd datganoledig y system cydsynio seilwaith yng Nghymru. Er enghraifft, byddai ceisiadau am gynlluniau cynhyrchu trydan uwchlaw 350 megawatt (MW) yng Nghymru yn dod o dan gyfundrefn NSIP a Llywodraeth y DU fyddai'n dyfarnu arnynt.

## Mathau o PSAau

Mae cynigion PSA yn cwmpasu amrywiaeth o wahanol fathau o gynlluniau seilwaith o wahanol faint a allai gael effaith fawr mewn ffyrdd amrywiol, gan gynnwys darpariaeth amwynderau cyhoeddus a chyflogaeth cymuned. Gallai datblygiadau arfaethedig gynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

- **Seilwaith trydan**

Cynlluniau cynhyrchu trydan sy'n cynhyrchu rhwng 50MW a 350MW, a gorsafoedd ynni gwynt uwchlaw 50MW. Gallai datblygiadau ynni effeithio ar werth

amwynder cymunedol, yn bennaf ar ffurf cynlluniau ffermydd solar a gwynt, gan eu bod yn gynigion cyffredin ym maes cydsyniad seilwaith. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau ynni morol fel gorsafoedd pŵer môr-lynnoedd llanw neu ffermydd gwynt ar y môr.

- **Llinellau pŵer**

Gosod llinellau pŵer uwchlaw'r ddaear yng Nghymru sy'n 2km o hyd o leiaf ac sy'n gysylltiedig ag adeiladu, ymestyn neu addasu gorsaf gynhyrchu sy'n cymhwyso fel prosiect seilwaith arwyddocaol.

- **Cynlluniau priffyrdd**

Cynlluniau priffyrdd sy'n fwy nag 1km o hyd, neu unrhyw addasiad i briffordd sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

- **Cyfleusterau nwy naturiol**

Addasu neu adeiladu cyfleusterau â chapasiti storio o 43 miliwn o fetrau ciwbig neu gyfradd llif o 4.5 miliwn o fetrau ciwbig y dydd.

- **Cynlluniau rheilffyrdd**

Addasu neu adeiladu rheilffyrdd yng Nghymru sy'n fwy na 2km o hyd sy'n dechrau, yn gorffen, ac yn aros yng Nghymru neu sy'n rhan o rwydwaith sy'n bodoli eisoes.

- **Cyfleusterau gwastraff peryglus**

Addasu neu adeiladu cyfleusterau a all waredu 100,000 o dunelli'r flwyddyn drwy dirlenwi neu storio dwfn neu sydd â'r capasiti i storio 30,000 o dunelli'r flwyddyn.

# Rôl aelodau etholedig

Caiff aelod etholedig ei ethol i gynrychioli etholaeth, naill ai:

- drwy gael ei ethol yn gynghorydd i gynrychioli ward neu ardal leol mewn cyngor,
- neu drwy gael ei ethol i gynrychioli etholaeth fel Aelod o'r Senedd.

Nid yw aelodau etholedig nac awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad seilwaith. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hyn.

Rôl aelod etholedig yw cynrychioli barn ei ward neu ei gymuned a darparu tystiolaeth leol wrth ymateb i'r PSA arfaethedig, a gaiff ei hystyried gan Weinidogion Cymru wrth iddynt wneud dyfarniad ar y cais.

**Mae dyletswydd ar yr holl aelodau etholedig a restrir isod i gadw at y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan' fel y'u gelwir) a nodwyd gan y Comisiwn Moeseg ac Uniondeb ac sy'n gymwys i bawb mewn swydd gyhoeddus. Yr egwyddorion hyn, sef anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth, yw sylfeini gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Comisiynydd.**

## Mathau o aelodau etholedig

### Aelodau o'r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn gynrychiolwyr etholedig sydd wedi cael eu hethol i gynrychioli etholaeth neu ranbarth o Gymru fel rhan o'r Senedd. Maent yn cynnig, yn trafod, ac yn penderfynu ar gyfreithiau sy'n gymwys i Gymru mewn meysydd datganoledig fel iechyd, addysg, tai, yr amgylchedd ac ati.

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod gweithredol datganoledig i Gymru sy'n gyfrifol am roi cyfreithiau a pholisïau ar waith mewn meysydd sydd wedi'u datganoli oddi wrth Senedd y DU. Caiff Llywodraeth Cymru ei harwain gan Brif Weinidog Cymru, sef arweinydd y blaid fwyaf a gafodd ei hethol i'r Senedd fel arfer. Mae'r Prif Weinidog yn penodi Ysgrifenyddion Cabinet neu Weinidogion ("Gweinidogion Cymru") i arwain gwaith ar feysydd polisi penodol. Mae gan y Prif Weinidog a'i Ysgrifenyddion Cabinet, felly, rolau deuol a gwahanol fel aelodau o'r llywodraeth ac Aelodau o'r Senedd.

Ceir esboniad pellach o rôl Gweinidogion Cymru isod.

Mae holl Aelodau'r Senedd yn ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd ac yn ei ddilyn, ac mae'r Cod hwn yn amlinellu'r safonau a'r rheolau sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelod.

## Gweinidogion Cymru

Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru, sy'n gyfrifol am ystod eang o feysydd polisi fel iechyd, addysg, trafnidiaeth, a datblygiad economaidd. Mae'r Prif Weinidog yn aseinio'r meysydd polisi hyn i Ysgrifenyddion Cabinet pan gaiff llywodraeth ei ffurfio.

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch cydsynio seilwaith a nhw sy'n gwneud y dyfarniad terfynol ar PSA. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ar ôl cael argymhelliad ar y cynnig gan yr awdurdod archwilio. Bydd yr awdurdod archwilio yn gwneud argymhelliad ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth ger ei fron, yn dilyn gwaith ymgynghori a sylwadau a wnaed gan randdeiliaid mewn digwyddiadau neu'n ysgrifenedig fel rhan o'r broses archwilio.

Caiff cyfrifoldebau ac ymddygiad Gweinidogion Cymru, yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau, eu llywodraethu gan God y Gweinidogion.

## Cynghorwyr awdurdodau lleol

Cynghorwyr awdurdodau lleol yw cynrychiolwyr etholedig y 25 awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n cynnwys 22 o awdurdodau unedol a thri awdurdod parc cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dros 1000 o gynghorwyr.

Mae cynghorwyr awdurdodau lleol yn cynrychioli'r wardiau neu'r adrannau etholiadol penodol yn eu cynghorau, ac yn gweithio i bontio safbwyntiau'r cyhoedd a'r cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion lleol yn cael eu hadlewyrchu ym mhenderfyniadau cyngor. Mae cynghorwyr awdurdodau lleol yn ymgysylltu â chymunedau, gan fynd i gyfarfodydd cyhoeddus i gynrychioli safbwyntiau lleol mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol.

## Cynghorwyr cymuned a thref

Ar y lefel fwyaf lleol o lywodraeth leol, cynghorwyr cymuned a thref yw cynrychiolwyr etholedig y 731 a mwy o gynghorau cymuned a thref ledled Cymru sy'n cynnwys tua 8,000 o aelodau.

Mae cynghorau cymuned a thref yn cwmpasu ardaloedd lleol fel pentrefi, trefi, neu gymunedau gwledig sydd o fewn ffiniau prif gyngor awdurdod lleol. Nid oes wardiau mewn llawer o gynghorau cymuned neu dref bach. Hynny yw, mae aelodau yn cynrychioli ward o fewn eu cymuned ar y cyngor. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes gan bob ardal awdurdod lleol gynghorau cymuned a thref.

Felly, mae rôl cynghorydd cymuned a thref yn canolbwyntio ar faterion lleol a gall gwmpasu gwasanaethau fel llwybrau troed mynediad cyhoeddus, digwyddiadau lleol, canolfannau cymunedol, a llawer mwy, yn hytrach na gwasanaethau ehangach fel gofal iechyd, addysg, seilwaith ffyrdd ac ati.

Ymgynghorir â chynghorau cymuned a thref ar benderfyniadau cynllunio a wneir gan awdurdodau lleol a gallant wneud sylwadau ar ddatblygiadau arfaethedig er mwyn cyflwyno safbwyntiau cymunedol penodol i'w hystyried.

## Aelodau Seneddol

Caiff Aelodau Seneddol eu hethol i Senedd y DU i gynrychioli etholaethau a deddfu ar faterion annatganoledig a gedwir yn ôl i San Steffan fel amddiffyn, materion tramor, prosiectau ynni uwchlaw trothwyon PSA fel NSIPs ac ati. Fel Aelodau o'r Senedd, mae Aelodau Seneddol yn craffu ar Lywodraeth y DU ac yn codi materion eu hetholaeth.

Nid yw Aelodau Seneddol yn gwneud penderfyniadau ar faterion cydsynio seilwaith nac ar gynigion PSA yng Nghymru, gan mai Gweinidogion Cymru sydd â'r pwerau hyn.

Hefyd, nid oes yn rhaid i gynigion PSA fod yn gyfan gwbl yng Nghymru ac, yn dibynnu ar y cynnig, gallant fod ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai angen cydgysylltu trawslywodraethol yn yr achosion hyn, felly. Yn ogystal, byddai angen cydgysylltu trawslywodraethol hefyd fel rhan o'r broses NSIP ar gyfer cynigion a allai bontio materion annatganoledig fel prosiectau ynni ar raddfa fawr (ynni niwclear er enghraifft).  Gall Aelodau Seneddol hefyd gynrychioli pryderon etholaeth i Weinidogion y DU os bydd cynnig yn cynnwys materion annatganoledig neu gyllid y DU.

# Egwyddorion i aelodau etholedig ar ymgysylltu â phrosesau cydsynio seilwaith

Mae sawl egwyddor allweddol a gaiff ei hystyried yn arfer orau y dylai aelodau etholedig ei dilyn er mwyn cyfrannu'n ystyrlon at ddyfarniad Gweinidogion Cymru ar PSA arfaethedig. Ceir crynodeb o'r 10 egwyddor allweddol ar ddiwedd yr adran hon. Yn ogystal, dylai cynghorwyr llywodraeth leol ac Aelodau o'r Senedd ddilyn egwyddorion a nodir yn eu codau ymddygiad wrth ymgysylltu â'r broses cydsynio seilwaith.

**1. Ymgysylltu'n gynnar**

Mae ymgysylltu'n gynnar yn hollbwysig er mwyn dylanwadu ar brosiectau arfaethedig sy'n debygol o effeithio ar ardal leol a chaiff aelodau etholedig eu hannog i ymgysylltu â'u cymunedau cyn gynted â phosibl ar PSA arfaethedig ar y cam cyn gwneud cais. Fel cynrychiolydd cymuned, mae PSA arfaethedig sydd wedi'i leoli yn y gymuned honno a/neu sy'n effeithio ar y gymuned honno ac yn berthnasol iddi, yn golygu y caiff aelodau etholedig a'u cynghorau neu eu hawdurdodau eu hysbysu am y cynnig ar y cam cyn gwneud cais.

Bydd gwaith cyhoeddusrwydd ac ymgynghori yn dechrau ar y cam hwn a gall aelodau etholedig, fel cynrychiolwyr eu hetholaethau, godi materion a phryderon gan eu cymunedau i'r ceisydd. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i geisydd gynnal digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus a rhannu gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig drwy bapurau newydd lleol, hysbysiadau safle, a gwefan.

Mae'r gofynion cyn gwneud cais hyn yn golygu y bydd aelodau etholedig yn cael manylion am PSA arfaethedig a sut i wneud sylwadau er mwyn llywio dyfarniad Gweinidogion Cymru ar y cais.

**2. Cynrychioli eich etholaeth**

Dylai aelod etholedig roi safbwynt sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o safbwyntiau lleol a geir ar y PSA arfaethedig yn ei gymunedau.

Argymhellir y dylai cynghorwyr ymgynghori â'u hetholwyr lleol wrth wneud sylwadau ar PSAau arfaethedig. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw sylwadau a gyflwynir gan aelodau etholedig yn adlewyrchu safbwyntiau'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli yn llawn a'u bod yn cynnwys unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth leol a allai lywio'r broses o wneud dyfarniad ar y PSA arfaethedig.

**3. Eich gwybodaeth leol**

Mae'r wybodaeth leol y mae aelodau etholedig yn ei chael gan eu hetholwyr, ar y cyd â dealltwriaeth gadarn o brosesau cydsynio seilwaith a chynllunio, yn golygu

bod unrhyw sylwadau a wneir gan yr aelod yn fwy tebygol o fod yn berthnasol i'r dyfarniad a wneir ar PSA arfaethedig.

Mae gwybodaeth leol yn bwysig oherwydd gall prosiectau seilwaith gael effeithiau pellgyrhaeddol ar gymunedau yn aml. Mae gwybodaeth leol sy'n mynd y tu hwnt i ddata technegol yn ddefnyddiol i benderfyniadau Gweinidogion Cymru, gan sicrhau bod prosiectau yn gynaliadwy ac yn hyfyw o safbwynt cymdeithasol, amgylcheddol, ac economaidd.

Er enghraifft, gallai gwybodaeth leol roi manylion am y canlynol:

- Buddiannau cymunedol a allai ddeillio o ddatblygiad.
- Ardaloedd sy'n tueddu i ddioddef llifogydd a mathau eraill o sensitifrwydd amgylcheddol.
- Sut y gallai datblygiad seilwaith gael ei integreiddio mewn ardal mewn ffordd sy'n gweithio i'r gymuned leol ac yn ategu ei hasedau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol a threftadaeth, gan addasu'r dyluniad i weddu i gymeriad yr ardal leol.
- Problemau cymunedol fel llygredd sŵn, ansawdd traffig, ansawdd aer ac effaith weledol y gallai fod angen eu lliniaru.
- Y ffordd orau o integreiddio seilwaith newydd i mewn i seilwaith a defnydd tir sydd eisoes yn bodoli.

Mae ymgynghori â phreswylwyr lleol i gasglu eu safbwyntiau ar PSA arfaethedig yn ddefnyddiol er mwyn cael gwybodaeth leol a fydd yn llywio'r sylwadau a wneir gan aelodau etholedig yn ystod y broses o archwilio cynigion PSA. Efallai yr hoffai aelodau etholedig ddefnyddio'r dulliau canlynol o ymgynghori â phreswylwyr lleol:

- Holiaduron drws i ddrws.
- Codi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio platfformau fel Facebook ac X ac annog pobl i gyflwyno safbwyntiau drwy e-bost.
- Digwyddiadau neu weithdai cyhoeddus, a allai gael eu cynnal mewn lleoliadau fel neuaddau cymuned neu swyddfeydd cyngor.

Efallai yr hoffai cynghorwyr gael cyngor gan wasanaeth cynghori arbenigol fel ymgynghoriaeth gynllunio neu Cymorth Cynllunio Cymru wrth baratoi sylwadau. Gall gwybodaeth arbenigol helpu i sicrhau bod sylwadau a gyflwynir i Weinidogion Cymru ar gynnig yn berthnasol i rinweddau'r cynnig, gan gynnwys ei gydnawsedd â pholisïau cynllunio cenedlaethol. Gall hyn sicrhau bod sylwadau yn fwy tebygol o gael eu hystyried gan Weinidogion Cymru wrth iddynt wneud y dyfarniad terfynol ar y cais.

Mae rhestr o gysylltiadau defnyddiol a all roi rhagor o wybodaeth am gydsyniad seilwaith i aelodau etholedig ar gael yn yr adran “Rhagor o wybodaeth” yn y canllawiau hyn.

## 4. Osgoi rhagderfynu

Er na chaiff aelodau etholedig eu gwahardd rhag mynegi barn neu ymgysylltu ag etholwyr ar PSAau arfaethedig, gan fod y ddeddfwriaeth ar gyfer y broses cydsynio seilwaith yn annog cyfranogiad y cyhoedd, mae'n bwysig bod cynghorwyr ac Aelodau o'r Senedd yn osgoi rhagderfynu.

Hynny yw, llunio barn cyn bod yr holl dystiolaeth a safbwyntiau yn cael eu hystyried yn ystod y broses cydsynio seilwaith, yn enwedig yn ystod y camau cyn gwneud cais ac archwilio.

Rhaid i aelod etholedig gadw meddwl agored ac ystyried y cais o safbwynt yr etholaeth, heb ragfarnu materion, ac ystyried tystiolaeth a gwybodaeth leol wrth gyflwyno ei sylwadau.

Mae'n bwysig osgoi rhagderfynu, gan fod yr holl waith archwilio a wneir gan yr awdurdod mewn perthynas â chynigion PSA yn seiliedig ar dystiolaeth. Os na all aelod etholedig gyfiawnhau pwynt â thystiolaeth leol, ac os na fydd yn ystyried unrhyw rai o ystyriaethau polisi cenedlaethol perthnasol Llywodraeth Cymru ychwaith, yna mae'n debygol na chaiff ei ystyried fel rhan o'r penderfyniad terfynol y bydd Gweinidogion Cymru yn ei wneud ar y cais.

## 5. Gwrthdaro buddiannau

Mae gwrthrychedd ac anhunanoldeb yn ddwy o Egwyddorion Nolan fel yr amlinellwyd eisoes a dylai aelod etholedig eu dilyn wrth roi cyfrif am unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â chais. Gall gwrthdaro buddiannau godi pan allai buddiant personol neu ariannol aelod etholedig, neu unrhyw fuddiant arall, amharu ar ei wrthrychedd wrth wneud sylwadau ar PSAau arfaethedig. Gallai'r achosion hyn o wrthdaro buddiannau fod ar ffurf buddiant ariannol mewn cwmnïau y bydd cynnig yn effeithio arnynt, aelodaeth o sefydliadau sydd o blaid neu yn erbyn cynnig, neu gysylltiadau personol/teuluol â chynnig.

Os bydd gan aelod etholedig fuddiant sy'n gwrthdaro mewn perthynas â chais, dylai ddatgan y buddiant hwnnw wrth wneud sylwadau fel ei fod yn hysbys.

## 6. Dylai sylwadau gysylltu ag ystyriaethau perthnasol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaethau, canllawiau a pholisïau cenedlaethol y gall aelodau etholedig eu defnyddio i lywio eu sylwadau. Gan fod cynigion PSA yn cael eu harchwilio ar sail tystiolaeth, dylai aelodau etholedig ystyried y rhain wrth lunio eu sylwadau llafar neu ysgrifenedig.

Mae hyn yn bwysig am fod y nodau a'r polisïau a drafodir yn y dogfennau hyn yn ystyriaethau perthnasol wrth wneud dyfarniad ar gynigion PSA, a bydd Gweinidogion Cymru yn cyfeirio atynt wrth wneud eu penderfyniad. Felly, dylai aelodau etholedig eu defnyddio.

Efallai y bydd aelodau etholedig yn gyfarwydd â'r ystyriaethau canlynol o strategaethau a pholisïau cenedlaethol:

- **Rhaglen lywodraethu**
  Adroddiad blynyddol sy'n amlinellu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud tuag at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ym maes cynaliadwyedd, newid hinsawdd, datblygiad economaidd, addysg, amrywiaeth, cydraddoldeb, siaradwyr Cymraeg ac ati.

  Mae'r adroddiad ar gael yma: Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU

  Yr amcanion hyn gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer polisïau a phenderfyniadau cenedlaethol ac maent hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer y mathau o faterion y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried wrth wneud dyfarniad ar geisiadau am gydsyniad seilwaith.

- **Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)**
  Dogfen cynllunio polisi genedlaethol ar gyfer gwaith datblygu gofodol yw'r FfDC, sy'n nodi lleoliadau cyffredinol ar gyfer tai, cyflogaeth, seilwaith, mannau gwyrdd ac ati. Caiff y FfDC ei gymhwyso ar lefel genedlaethol a lleol wrth wneud penderfyniadau ynghylch datblygu ac mae'n llywio cynlluniau a pholisïau datblygu a lunnir ar lefel ranbarthol a lleol, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r FfDC.

  Mae'r FfDC, felly, yn ystyriaeth bwysig i Weinidogion Cymru wrth iddynt wneud dyfarniad ar gynigion PSA. Mae'r FfDC yn arbennig o ddylanwadol am ei fod yn amlinellu'r blaenoriaethau cenedlaethol fel seilwaith ynni adnewyddadwy, cynaliadwyedd a'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu bod polisïau'r FfDC yn aml yn ganolog i waith rhesymu am fod yn rhaid gwneud penderfyniadau yn unol â nhw.

  Wrth lunio sylwadau ar PSA arfaethedig, dylai aelodau etholedig gyfeirio at y FfDC a chydymffurfio â'i bolisïau.

  Mae fersiwn bresennol y FfDC ar gael yma: Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU

- **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)**
  Mae CMCC yn darparu polisi a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â defnyddio ardal forol Cymru mewn ffordd gynaliadwy, gan gydbwyso amcanion amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol. Mae ardal forol Cymru yn cynnwys dyfroedd ar y glannau yng Nghymru sy'n ymestyn allan 12 milltir forol o'r lan, sy'n cyfrif am 43% o diriogaeth Cymru.

  Mae CMCC yn ddogfen bwysig i Weinidogion Cymru ei hystyried wrth wneud dyfarniad ar brosiectau morol gan gynnwys ffermydd gwynt ar y môr, ceblau tanddwr a phorthladdoedd.

  Wrth lunio sylwadau ar gynnig PSA sy'n cael effaith ar yr ardal forol, dylai aelodau etholedig gyfeirio at CMCC a chydymffurfio â'i bolisïau.

  Mae CMCC ar gael yma: Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU

- **Ystyriaethau eraill**
  Mae ystyriaethau polisi eraill sy'n gymwys i gynlluniau cydsynio seilwaith fel:
  - Polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru (PCC), a ategir gan Nodiadau Cyngor Technegol (TANs). Mae PCC yn darparu polisïau cynllunio cenedlaethol ar sail pynciau a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r FfDC. Mae PCC a'r TANs yn ystyriaeth wrth wneud dyfarniad ar gynigion datblygu ac maent yn llywio polisïau cynllunio a lunnir ar lefel ranbarthol a lleol.
  - Canllawiau polisi penodol gan Lywodraeth Cymru a allai fod yn gymwys i gynlluniau seilwaith. Er enghraifft, canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag ynni adnewyddadwy (ffermydd solar a gwynt), cynlluniau priffyrdd a seilwaith ffyrdd. Mae'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Gall tystiolaeth a gwybodaeth gymunedol leol fod yn wahanol i bolisïau cenedlaethol a dylid eu cyflwyno i Weinidogion Cymru am y gallant fod yn ystyriaeth bwysig wrth wneud dyfarniad ar PSA arfaethedig.

## 7. Ymgynghori â chynghorwyr cymdogol

Gall y cynigion datblygu a gaiff eu hamlinellu mewn ceisiadau am PSAau fod yn bellgyrhaeddol o ran eu heffaith a'u harwynebedd, gan groesi ffiniau aneddiadau.

Felly, gallai'r cais ei hun fod yn berthnasol i nifer o etholaethau a chymunedau lleol.

Er y bydd pob awdurdod lleol a chyngor cymuned a thref dan sylw yn cael eu hysbysu'n unigol ac yn cael y cyfle i roi mewnbwn yn ystod camau cyn gwneud cais ac archwilio'r broses, gallai fod yn briodol i aelodau etholedig ymgynghori â chynghorwyr o wardiau a chymunedau cymdogol i nodi materion lleol cyffredin a pherthnasol i'w hystyried.

Bydd mewnbwn mwy cyfunol yn adeiladu ar wybodaeth leol a gallai ddarparu mwy o dystiolaeth i lywio'r dyfarniad ar PSA arfaethedig.

## Egwyddorion Ymgysylltu Gweinidogion ac Aelodau o'r Senedd

Egwyddorion allweddol yw'r rhain yr ystyrir ei bod yn arfer orau i Aelodau o'r Senedd eu hystyried yn ystod y broses cydsynio seilwaith, nad ydynt yn berthnasol i gynghorwyr. Efallai y bydd Aelodau o'r Senedd eisoes yn gyfarwydd â'r egwyddorion hyn:

**8. Cymhwyso Cod y Gweinidogion**

Cod y Gweinidogion yw Cod Ymddygiad y Prif Weinidog ar gyfer ei hun a'i dîm o weinidogion. Mae'n rhoi canllawiau ar yr ymddygiad a'r safonau a ddisgwylir gan aelodau o'r llywodraeth wrth iddynt gyflawni eu rolau fel gweinidogion.

Mae'r ddogfen ar gael yma: [Cod y Gweinidogion | LLYW.CYMRU]

Mae adran 4.8 yn nodi "Mae rhwydd hynt i'r Gweinidogion fynegi barn eu hetholwyr am faterion etholaethol wrth y Gweinidogion cyfrifol drwy ohebu â hwy, drwy arwain dirprwyaethau neu drwy gyfweliadau personol ar yr amod eu bod yn ei gwneud yn glir eu bod yn gweithredu fel cynrychiolwyr eu hetholwyr yn hytrach nag fel Gweinidogion". Mae hyn yn cynnwys gwneud sylwadau mewn perthynas â PSAau.

Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, bydd penderfyniad yn syrthio o fewn ffin etholaethol y Gweinidog sy'n gyfrifol am wneud y dyfarniad terfynol ar y cynnig. Byddai adran 4.5 o God y Gweinidogion, mewn perthynas â rheoli buddiannau etholaethol, yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn. Ni fyddai'r Gweinidog yn cael ei gynnwys ar unrhyw gam o'r cynnig, a byddai'n cael ei drosglwyddo i Weinidog arall er mwyn cynnal uniondeb y broses gwneud penderfyniad. Byddai hyn yn galluogi'r Gweinidog i fynegi safbwyntiau lleol ar PSA arfaethedig, yn rhinwedd ei rôl etholaethol, i'r unigolyn wrth gefn a fydd yn gwneud y penderfyniad.

**9. Cymhwyso'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd**

Mae'r Cod Ymddygiad yn amlinellu'r safonau y mae'n rhaid i Aelodau o'r Senedd ymddwyn yn unol â nhw, y dylid eu hystyried wrth wneud sylwadau ar PSA arfaethedig.

Mae'r Cod Ymddygiad ar gael yma: Cod Ymddygiad a Rheolau a Chanllawiau Cysylltiedig ar gyfer Aelodau o'r Senedd

**10. Gwrthrychedd**

Mae'n bwysig nodi na chaiff Aelodau o'r Senedd, o dan y Cod, gyfaddawdu eu gwrthrychedd. Ni ddylai Aelodau ragfarnu nac ymrwymo'n gyhoeddus i safbwynt ar gais cyn i'r camau archwilio a phenderfynu ddod i ben. Mae hyn yn cysylltu â'r arfer dda o osgoi rhagderfynu am fod yn rhaid i gais gael ei farnu ar sail ei rinweddau ei hun gyda safbwyntiau lleol etholaeth a thystiolaeth sydd ar gael yn cael eu hystyried yn ystod y camau ymgynghori ac archwilio.

Ni chaiff Aelodau o'r Senedd ddefnyddio eu swydd i roi mantais i unrhyw berson neu sefydliad sy'n rhan o gais na'i roi o dan anfantais. Dylai Aelodau osgoi unrhyw weithred y gellid ystyried ei bod yn achos o lobïo, derbyn gwobrau neu ddylanwadu'n amhriodol yn ystod y broses cydsynio seilwaith.

## Gwaith ymgysylltu awdurdodau cynllunio lleol

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl i'w chwarae yn y broses cydsynio seilwaith drwy roi tystiolaeth gynllunio leol i Weinidogion Cymru ar y PSA arfaethedig ar ffurf Adroddiad ar yr Effaith Leol (AEL). Mae'r AEL yn ddogfen ffeithiol a gwrthrychol sy'n disgrifio effeithiau tebygol y datblygiad arfaethedig. Mae'r AEL yn wahanol i unrhyw sylw y gallai aelod etholedig (neu gyngor) ei wneud ar rinweddau cais.

Ymgynghorir â chynghorwyr ar geisiadau am gydsyniad seilwaith a leolir yn eu hetholaethau. Dylai cynghorwyr gynrychioli safbwyntiau eu hetholwyr wrth ymateb i PSA arfaethedig, gan ystyried hefyd unrhyw gyngor technegol y byddant yn ei gael gan swyddogion cynllunio ar y cynllun arfaethedig.

## Crynodeb o'r egwyddorion allweddol

Isod ceir crynodeb o'r egwyddorion allweddol y dylai aelodau etholedig eu hystyried:

1. **Ymgysylltu'n gynnar**
   Dylai aelodau etholedig ymgysylltu â chynnig PSA sy'n berthnasol iddynt mor gynnar â phosibl ar y cam cyn gwneud cais er mwyn codi materion a phryderon lleol.

2. **Cynrychioli eich etholaeth**
   Drwy ymgynghori, dylai aelodau etholedig ddarparu safbwyntiau sy'n cynrychioli ystod o safbwyntiau lleol gan eu cymunedau ar PSA arfaethedig.

3. **Eich gwybodaeth leol**
   Gan fod cynigion PSA yn gallu effeithio ar gymunedau, dylai aelodau etholedig feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth leol i ddarparu sylwadau a all roi

gwybodaeth i Weinidogion Cymru er mwyn helpu i sicrhau bod prosiectau yn gynaliadwy ac yn hyfyw o safbwynt cymdeithasol, amgylcheddol, ac economaidd.

4. **Osgoi rhagderfynu**
   Ni ddylai aelodau etholedig ragfarnu PSA arfaethedig cyn bod tystiolaeth, gwybodaeth a safbwyntiau lleol yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu arno. Mae hyn am fod PSAau yn cael eu harchwilio ar sail tystiolaeth.

5. **Gwrthdaro buddiannau**
   Dylai aelodau etholedig ddatgan unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau wrth wneud sylwadau os gallai unrhyw fuddiannau personol neu ariannol, neu fuddiannau eraill, amharu ar ddidueddrwydd.

6. **Dylai sylwadau gysylltu ag ystyriaethau perthnasol**
   Caiff PSAau eu harchwilio ar sail tystiolaeth ac felly bydd Gweinidogion Cymru yn seilio eu penderfyniadau ar yr ystyriaethau perthnasol. Mae Gweinidogion Cymru yn cymhwyso polisïau, canllawiau a strategaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru wrth wneud penderfyniadau ac felly dylai aelodau etholedig ystyried y rhain wrth lunio sylwadau.

7. **Ymgynghori â chynghorwyr cymdogol**
   Gall cynigion PSA fod yn bellgyrhaeddol o ran eu heffaith a'u harwynebedd, gan groesi ffiniau aneddiadau. Efallai yr hoffai aelodau etholedig ymgynghori ag aelodau a wardiau cymdogol i nodi materion lleol cyffredin a pherthnasol i'w hystyried.

Egwyddorion penodol i Aelodau o'r Senedd:

8. **Cymhwyso Cod y Gweinidogion**
   Rhaid i Aelodau o'r Senedd sydd â dyletswyddau gweinidogol ddilyn Cod y Gweinidogion.

9. **Cymhwyso'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd**
   Rhaid i Aelodau o'r Senedd hefyd ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

10. **Gwrthrychedd**
    Ni ddylai Aelodau o'r Senedd gyfaddawdu eu gwrthrychedd drwy ragfarnu neu ymrwymo'n gyhoeddus i safbwyntiau ar gynigion PSA ac ni ddylent ddefnyddio eu swydd i roi mantais i unrhyw un sy'n rhan o gais na'i roi o dan anfantais.

# Y broses cydsynio seilwaith

Mae'r adran ganlynol yn rhoi disgrifiad manwl o'r broses cydsynio seilwaith ar gyfer Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol (PSAau) a phryd y dylai aelodau etholedig ymgysylltu â'r broses honno. Cafodd y broses hon ei rhoi ar waith ar 15 Rhagfyr 2025 gan Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024. Ceir crynodeb o rôl aelodau etholedig ar ddiwedd yr adran hon hefyd.

## Cam cyn gwneud cais

Cyn cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith, mae'n ofynnol i'r ceisydd hysbysu Gweinidogion Cymru am ei PSA arfaethedig.

Ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn ei hysbysiad, mae'n ofynnol i'r ceisydd gynnal cyfnod o waith ymgynghori a chyhoeddusrwydd ar ei gynnig cyn gwneud cais, a hynny am 42 diwrnod o leiaf, ond gallai'r cyfnod hwn fod yn hwy, yn dibynnu ar ffactorau fel maint a graddfa'r prosiect arfaethedig neu'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd neu gynefinoedd.

Fel rhan o'r cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais, bydd yn ofynnol i'r ceisydd roi hysbysiad ysgrifenedig i bob rhanddeiliad perthnasol mewn perthynas â'r PSA arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys unrhyw Aelodau o'r Senedd, awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref ar gyfer yr ardal lle mae'r PSA arfaethedig wedi'i leoli ac y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar eu hetholaethau. Bydd yr hysbysiad hwn yn rhoi manylion am y PSA arfaethedig yn ogystal â'r dyddiadau cau ar gyfer sut a phryd y gellir cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad i'r ceisydd (neu y mae'n rhaid i ymgynghorai statudol eu cyflwyno).

Hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais, bydd yn ofynnol i'r ceisydd gyhoeddi manylion y PSA arfaethedig ar wefan, arddangos hysbysiadau safle yng nghyffiniau'r prosiect arfaethedig, cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd yn ardal y PSA arfaethedig, a chynnal o leiaf un digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus yn ardal y PSA arfaethedig.

Fel rhan o arferion gorau ar gyfer gwaith ymgysylltu cynnar gan aelodau etholedig:

- **Dylai aelodau etholedig** ddefnyddio'r cyfnod ymgynghori i ymgysylltu â'u cymunedau ar PSA arfaethedig sydd o fewn eu hardal neu'n debygol o effeithio ar eu hardal.

- **Dylai aelodau etholedig** gyflwyno ymateb i geisydd PSA arfaethedig yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn sy'n cynrychioli safbwyntiau lleol a gwybodaeth leol ac sy'n ystyried yr ystyriaethau perthnasol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth wneud dyfarniad ar y PSA arfaethedig.

Rhaid i'r ceisydd, fel rhan o ofynion cyn gwneud cais, ystyried yr holl ymatebion a dangos sut y maent wedi cael eu hystyried fel rhan o adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais, cyn iddo gyflwyno ei gais i Weinidogion Cymru.

## Cam gwneud cais

Rhaid i'r ceisydd wneud cais am gydsyniad seilwaith i Weinidogion Cymru o fewn 18 mis ar ôl i'w hysbysiad cyn gwneud cais gael ei dderbyn. I gyd-fynd â'r cais, cyflwynir adroddiad ymgynghoriad cyn gwneud cais yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a chyhoeddusrwydd a'r ystyriaeth a roddwyd i'r ymatebion hynny.

Yna bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r cais yn ddilys (h.y. ei fod yn gyflwyniad derbyniol i Weinidogion Cymru ddyfarnu arno) o fewn 28 diwrnod. Bydd yr amserlen hon yn ymestyn i 42 diwrnod os bydd y PSA arfaethedig yn cynnwys datblygiad sy'n galw am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA).

Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu pob rhanddeiliad perthnasol, gan gynnwys Aelodau o'r Senedd, awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, tirfeddianwyr ac ati, os bydd y cais am PSA arfaethedig yn ddilys. Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi hysbysiadau ynghylch y cais a dderbynnir mewn papurau newydd lleol a thrwy osod hysbysiadau safle yn ardal y PSA arfaethedig.

Bydd hyn yn dechrau cyfnod o 42 diwrnod o leiaf pan ellir gwneud sylwadau ar y cais a gyflwynwyd.

**Ar gyfer gwaith ymgysylltu aelodau etholedig;** yn ymarferol, bydd gwybodaeth a manylion am y PSA arfaethedig ar gael ar wefan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW). Bydd y wefan yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall pobl gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar PSA arfaethedig a'r dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno. Bydd yn cynnwys manylion am drefniadau'r gweithgareddau cyfranogi ac ymgysylltu cyhoeddus a gynhelir ar y PSA arfaethedig. Bydd sylwadau a wneir ar y cam hwn yn llywio'r broses o archwilio'r cais a'r dyfarniad a wneir yn ei gylch. Fel rhan o'r sylwadau a gyflwynir ganddynt, gall aelodau etholedig wneud cais i siarad yn bersonol yn ystod y broses o archwilio PSA arfaethedig mewn “gwrandawiad llawr agored” (gweler y diffiniad isod).

Dylai'r sylwadau ysgrifenedig a wneir gan aelod etholedig ddilyn yr arferion gorau a amlinellir yn adran “Egwyddorion i aelodau etholedig ar ymgysylltu â phrosesau cydsynio seilwaith” y canllawiau hyn. Mae'n bwysig bod sylwadau a wneir ynghylch PSA arfaethedig yn cynrychioli safbwyntiau etholaeth, gyda thystiolaeth o wybodaeth leol, gan ystyried yr ystyriaethau perthnasol mewn polisïau a chanllawiau cenedlaethol. Mae'n bwysig ystyried hyn gan fod yn rhaid i'r materion a godir yn y

sylwadau ysgrifenedig hyn fod yn faterion perthnasol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried wrth ddyfarnu ar y PSA arfaethedig. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y caiff yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru ddiystyru sylwadau y maent yn ystyried eu bod yn ‘flinderus’ neu'n ‘wacsaw’.

Rhaid i unrhyw awdurdod cynllunio sy'n cael hysbysiad am gais am gydsyniad seilwaith hefyd gyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol (AEL) i Weinidogion Cymru o fewn y cyfnod ar gyfer sylwadau. Gall awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref eraill ddewis cyflwyno AEL, ond nid oes dyletswydd statudol arnynt i wneud hynny. Yn yr un modd, mae Adroddiadau Effaith ar y Môr (AEM) ar gyfer cynigion PSA sy'n effeithio ar Ardal Forol Cymru a chânt eu cyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae AELau a AEMau yn adroddiadau ffeithiol ar PSAau arfaethedig. Mae manylion am yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn yr adroddiadau hyn ar gael yma.

- **Dylai aelodau etholedig** ddefnyddio'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ar y cais a gyflwynwyd i ymgymryd â gwaith ymgysylltu terfynol â'u cymunedau ar PSAau arfaethedig yn eu hardaloedd.

- **Dylai aelodau etholedig** gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y cais am gydsyniad seilwaith yn eu hardaloedd i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Dylai'r ymateb gynrychioli safbwyntiau lleol a gwybodaeth leol ac ystyried yr ystyriaethau perthnasol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth wneud dyfarniad ar y PSA arfaethedig.

- **Dylai aelodau etholedig** ystyried a hoffent hwy, neu unrhyw rai o'r cymunedau y maent yn cyflwyno sylwadau ar eu rhan, siarad yn gyhoeddus am y cais mewn gwrandawiad llawr agored. Os hoffent wneud hynny, rhaid iddynt nodi hynny fel rhan o'u hymateb i Weinidogion Cymru ar y cais am gydsyniad seilwaith.

## Cam archwilio

Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ddod i ben, rhaid i Weinidogion Cymru benodi “awdurdod archwilio” i gynnal archwiliad o gais. Fel arfer, Arolygwyr Cynllunio o PEDW sy'n cyflawni'r rôl hon. O fewn 28 diwrnod yn dilyn y cyfnod hwn, rhaid i'r awdurdod archwilio benderfynu pa weithdrefn(au) a ddefnyddir i archwilio'r PSA arfaethedig, a all fod yn un o'r canlynol neu'n gyfuniad ohonynt:

**Sylwadau ysgrifenedig**
Pan fydd yr awdurdod archwilio yn dyfarnu y caiff cais am gydsyniad seilwaith ei archwilio drwy sylwadau a gohebiaeth ysgrifenedig, ac nad oes angen cynnal digwyddiad.

**Gwrandawiadau seiliedig ar bynciau**
Digwyddiad a gynhelir yn bersonol neu'n rhithwir lle trafodir maes pwnc penodol sy'n berthnasol i'r dyfarniad a wneir ynghylch cais am gydsyniad seilwaith.

**Gwrandawiadau llawr agored**
Digwyddiad a gynhelir yn bersonol neu'n rhithwir lle mae partïon a chanddynt fuddiant yn gwneud sylwadau llafar ynghylch y cais. Yr awdurdod archwilio sy'n rheoli'r digwyddiadau hyn. Os bydd aelod etholedig yn gwneud cais i siarad yn bersonol am y cais fel rhan o'r sylwadau a gyflwynwyd ganddo ar y cam gwneud cais, yna bydd yr awdurdod archwilio yn cynnal gwrandawiad llawr agored.

**Ymchwiliadau**
Digwyddiad a gynhelir yn bersonol neu'n rhithwir lle caiff maes pwnc penodol sy'n berthnasol i'r dyfarniad a wneir ynghylch cais am gydsyniad seilwaith ei drafod a'i archwilio'n fanwl.

Caiff digwyddiadau archwilio eu darlledu gan PEDW, felly bydd aelodau etholedig yn gallu gwylio digwyddiad hyd yn oed os na fyddant yn cymryd rhan uniongyrchol ynddo.

Gall aelodau etholedig gael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr archwiliad neu gellir gofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth drwy sylwadau ysgrifenedig yn ystod yr archwiliad, ond yr awdurdod archwilio fydd yn penderfynu pa feysydd pwnc, safbwyntiau a thystiolaeth y bydd angen iddynt eu hystyried.

Bydd amserlen a gaiff ei pharatoi gan yr awdurdod archwilio yn nodi pa weithdrefnau archwilio a gynhelir a'r dyddiadau ar eu cyfer. Gall aelodau etholedig gael eu hysbysu am y gweithdrefnau archwilio os bydd angen rhagor o wybodaeth ganddynt ar y cam hwn. Fel arall, efallai y bydd y sylwadau a gyflwynwyd ganddynt ar y cam gwneud cais yn ddigonol ac na fydd angen iddynt gymryd rhan mewn digwyddiad archwilio, oni bai eu bod yn gwneud cais i wneud hynny drwy “wrandawiad llawr agored”. Bydd yr amserlen yn nodi'n glir yr wybodaeth berthnasol y dylai aelodau etholedig fod yn ymwybodol ohoni mewn perthynas â'r archwiliad ei hun.

Ystyrir ei bod yn arfer orau i unrhyw sylwadau pellach a ddarperir gan aelodau etholedig ystyried yr egwyddorion allweddol a amlinellwyd yn rhan flaenorol y canllawiau hyn yn ystod y camau archwilio.

Yn gyffredinol, ar ôl y cyfnod archwilio hwn, bydd yr awdurdod archwilio yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru yn nodi ei ganfyddiadau a'i gasgliadau ynghylch y cais ynghyd ag argymhelliad o ran y penderfyniad y dylid ei wneud. Bydd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd gan yr awdurdod archwilio fel

rhan o gyflwyniadau a wnaed wrth ymgynghori ar y cais a'i archwilio. Felly, mae sylwadau yn llywio'r argymhelliad terfynol yn yr adroddiad a gaiff ei lunio gan yr awdurdod archwilio ar y cais.

Ar ôl cael yr adroddiad hwn, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod angen rhagor o wybodaeth, gallant ailagor y cyfnod archwilio ar gyfer cais. Yn ogystal, gall Gweinidogion Cymru hefyd ildio cais i'r awdurdod archwilio fel y gall yr awdurdod ddyfarnu arno yn ystod y cam gwneud penderfyniad.

- **Dylai aelodau etholedig** sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses archwilio ar gyfer cais am gydsyniad seilwaith, gan gynnwys yr amserlen. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol pe bai aelodau etholedig yn dymuno gweld achos neu os ydynt yn debygol o gael cais i gymryd rhan mewn digwyddiad archwilio.

- **Dylai aelodau etholedig** ymateb i unrhyw geisiadau gan yr awdurdod archwilio i ddarparu sylwadau ysgrifenedig pellach neu gymryd rhan mewn digwyddiad yn ystod y cyfnod archwilio.

## Cam gwneud penderfyniad

O fewn 52 wythnos i ddilysu cais am seilwaith, rhaid i Weinidogion Cymru (neu'r awdurdod archwilio fel y bo'n berthnasol) wneud penderfyniad i roi cydsyniad neu wrthod rhoi cydsyniad, ond gall y cyfnod amser hwn gael ei ymestyn os gellir dod i gytundeb â'r ceisydd. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud eu penderfyniad gan ystyried y cam archwilio a strategaethau a pholisïau amrywiol Llywodraeth Cymru a amlinellir yn adran “Dylai sylwadau gysylltu ag ystyriaethau perthnasol” y canllawiau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhaglen Lywodraethu
- Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)
- Polisi Cynllunio Cymru

Bydd y rhanddeiliaid perthnasol fel y ceisydd, pob Aelod o'r Senedd sy'n berthnasol i'r ardal, yr awdurdodau lleol neu'r cynghorau cymuned a thref a gyflwynodd AELau (a chynghorwyr drwy rinwedd), CNC os yw wedi cyflwyno AEM, pob tirfeddiannwr a thirfeddiannwr cyffiniol, ac unrhyw bersonau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol, yn cael eu hysbysu am y penderfyniad hwn.

Mae rhoi cydsyniad yn golygu y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud Gorchymyn Cydsyniad Seilwaith (GCS), a fydd yn amlinellu'r PSA a gymeradwywyd a'r gofynion ar gyfer rhoi'r cynllun y cydsyniwyd iddo ar waith.

- **Dylai aelodau etholedig** sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad seilwaith yn eu hardaloedd a rhannu gwybodaeth â'u cymunedau am y penderfyniad.

## Gweithdrefnau ar ôl gwneud penderfyniad

Os bydd unrhyw barti yn anfodlon ar ganlyniad penderfyniad ar gydsyniad seilwaith, yna mae cyfle i herio penderfyniad Gweinidogion Cymru drwy'r llysoedd. Her gyfreithiol yn erbyn y penderfyniad fyddai hyn, a elwir yn adolygiad barnwrol.

## Crynodeb o ymgysylltiad aelod etholedig â'r broses

| **Cam cyn gwneud cais** |
|---|
| **Dylai aelodau etholedig** ddefnyddio'r cyfnod ymgynghori i ymgysylltu â'u cymunedau ar PSA arfaethedig sydd o fewn eu hardal neu'n debygol o effeithio ar eu hardal.<br><br>**Dylai aelodau etholedig** gyflwyno ymateb i geisydd PSA arfaethedig yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn sy'n cynrychioli safbwyntiau lleol a gwybodaeth leol ac sy'n ystyried yr ystyriaethau perthnasol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth wneud dyfarniad ar y PSA arfaethedig. |
| **Cam gwneud cais** |
| **Dylai aelodau etholedig** ddefnyddio'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ar y cais a gyflwynwyd i ymgymryd â gwaith ymgysylltu terfynol â'u cymunedau ar PSAau arfaethedig yn eu hardaloedd.<br><br>**Dylai aelodau etholedig** gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y cais am gydsyniad seilwaith yn eu hardaloedd i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Dylai'r ymateb gynrychioli safbwyntiau lleol a gwybodaeth leol ac ystyried yr ystyriaethau perthnasol y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth wneud dyfarniad ar y PSA arfaethedig (fel yr amlinellir yn yr adran “Dylai sylwadau gysylltu ag ystyriaethau perthnasol” yn y canllawiau hyn).<br><br>**Dylai aelodau etholedig** ystyried a hoffent hwy, neu unrhyw rai o'r cymunedau y maent yn cyflwyno sylwadau ar eu rhan, siarad yn gyhoeddus am y cais mewn gwrandawiad llawr agored. Os hoffent wneud hynny, rhaid iddynt nodi hynny fel rhan o'u hymateb i Weinidogion Cymru ar y cais am gydsyniad seilwaith. |
| **Cam archwilio** |
| **Dylai aelodau etholedig** sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses archwilio ar gyfer cais am gydsyniad seilwaith, gan gynnwys yr amserlen. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol pe bai aelodau etholedig yn dymuno gweld achos neu os ydynt yn debygol o gael cais i gymryd rhan mewn digwyddiad archwilio. |

| |
|---|
| **Dylai aelodau etholedig** ymateb i unrhyw geisiadau gan yr awdurdod archwilio i ddarparu sylwadau ysgrifenedig pellach neu gymryd rhan mewn digwyddiad yn ystod y cyfnod archwilio. |
| **Cam gwneud penderfyniad** |
| **Dylai aelodau etholedig** sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau ar geisiadau am gydsyniad seilwaith yn eu hardaloedd a rhannu gwybodaeth â'u cymunedau am y penderfyniad. |

# Rhagor o wybodaeth

Isod ceir cysylltiadau perthnasol ym maes cydsynio seilwaith a allai fod yn ddefnyddiol i aelodau etholedig:

## PEDW

Mae PEDW yn cynnwys arolygwyr cynllunio annibynnol sy'n gyfrifol am archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith a rhoi argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylai ceisiadau gael eu cymeradwyo neu eu gwrthod. Dylid cysylltu â PEDW os bydd gan aelod etholedig unrhyw ymholiadau ynghylch cais am gydsyniad seilwaith y mae PEDW wrthi'n ei ystyried.

Mae manylion cyswllt PEDW ar gael yma: PEDW.Seilwaith@llyw.cymru

## Cymorth Cynllunio Cymru (CCC)

Mae CCC yn rhoi cyngor annibynnol ar faterion cynllunio gwlad a thref, gan gynnwys cydsynio seilwaith.

Mae manylion cyswllt CCC ar gael yma: Cysylltwch â ni – Cymorth Cynllunio Cymru

## Tîm Cydsynio Seilwaith Llywodraeth Cymru

Gall Tîm Cydsynio Seilwaith Llywodraeth Cymru roi cyngor ar y broses cydsynio seilwaith, fel amserlenni a'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Fodd bynnag, ni all y Tîm wneud sylwadau ar geisiadau unigol.

Mae manylion cyswllt y Tîm Cydsynio Seilwaith ar gael yma: CydsynioSeilwaith@llyw.cymru